Rhoi ei holl egni i helpu'r plant

(dod i benderfyniad / gweledigaeth / gweld cyfle)

Eisteddai'r dynion o gwmpas y bwrdd. Roedd golwg dlodaidd ar bob un ohonyn nhw ond un. Dechreuodd un ohonyn nhw siarad, "Fel'na mae hi yn y ffatrïoedd a'r pyllau glo." Cytunodd un arall gan ddweud, "Ond be fedran ni wneud i wella'r sefyllfa?" Roedd y dyn oedd yn eistedd ym mhen y bwrdd yn garpiog a golwg welw arno. "Fedran ni wneud dim; mi fydd yn rhaid i ni gael rhywun arall i helpu." Gan droi at y dyn oedd wedi'i wisgo'n drwsiadus, trodd a gofyn, "Wnewch chi, Syr, ein helpu i wella cyflwr y gweithwyr yn y ffatrïoedd a'r pyllau glo?"

Y gŵr tal, trwsiadus oedd Arglwydd Shaftesbury ac ar y diwrnod arbennig hwn ym 1832 roedd wedi cyfarfod â'r gweithwyr i wrando ar yr hyn oedd ganddyn nhw i'w ddweud. Roedd yr hyn a glywodd ganddyn nhw y diwrnod hwnnw wedi creu cryn bryder a gofid iddo. Yn ôl y gweithwyr roedd merched a phlant yn gweithio am un awr ar bymtheg bob diwrnod o'r wythnos. Doedd y mwyafrif ohonyn nhw ddim yn gweld golau dydd o wythnos i wythnos. Ac roedden nhw'n cael eu trin yn union fel caethweision. Byddai'r plant wedi blino cymaint fel y bydden nhw'n syrthio i gysgu ar lawr y ffatri. Dim ond pedair oed oedd rhai ohonyn nhw.

Doedd Arglwydd Shaftesbury ddim yn gwybod ble i droi. Tybed a oedd yr hyn a glywodd y diwrnod hwnnw yn wir mewn difri? Y peth cyntaf roedd yn rhaid iddo'i wneud oedd mynd o gwmpas y ffatrïoedd a'r pyllau glo ei hunan i weld drosto'i hun. Y cam nesaf fyddai cael y Llywodraeth i basio deddfau i amddiffyn y plant.

Dyma fan cychwyn bywyd newydd i Arglwydd Shaftesbury. Pan oedd wrthi'n paratoi ei adroddiad cyntaf daeth ar draws merch fach o'r enw Sarah Gooder. Dyma beth ddywedodd hi wrtho. "Y peth anoddaf am fy ngwaith i ydi 'mod i ofn y tywyllwch. Bob dydd o'r flwyddyn rydw i'n gweithio yn y tywyllwch." Gofynnodd yr Arglwydd Shaftesbury iddi, "Am faint o oriau ydych chi'n gweithio bob dydd, Sarah?" Atebodd Sarah, "Dydw i ddim yn gwybod yn iawn. Fedra i ddim dweud yr amser. Rwy'n gwybod mod i'n cyrraedd y pwll glo am hanner awr wedi tri yn y bore ac yn gorffen am hanner awr wedi pump yn y pnawn."

"A beth yn union wyt ti'n ei wneud i lawr yn y pyllau?"

gofynnodd Arglwydd Shaftesbury iddi. Dywedodd hithau ei hanes.

"Fy ngwaith i a dwy o enethod eraill yw llusgo wagenni ar hyd y twneli tywyll. Mi fydda i a'r genethod eraill ar ein pedwar yn llusgo'r wagenni. Fedran ni ddim sefyll i fyny gan fod y to'n rhy isel. A does dim modd cael merlod i mewn i'r twnnel gan ei bod mor gyfyng.

Gofynnodd Arglwydd Shaftesbury iddi wedyn, "A phan fyddwch chi ddim yn gweithio, beth fyddwch chi'n ei wneud?"

"Dim ond un peth," atebodd Sarah, "a hynny ydi cysgu. Rydw i'n rhy flinedig i wneud dim arall, hyd yn oed bwyta. Weithiau pan fydda i'n bwyta mi fydda i'n syrthio i gysgu wrth y bwrdd."

"Faint ydi'ch oed chi, Sarah?" gofynnodd wedyn. Atebodd hithau, "Wyth oed dwi'n meddwl." Ar ôl i Arglwydd Shaftesbury ysgrifennu ei adroddiad roedd llawer o bobl yn ddig iawn. Pasiodd y Llywodraeth ddeddf yn mynnu nad oedd merched a genethod i weithio yn y pyllau glo ac y byddai'n rhaid i fechgyn fod yn ddeg oed cyn dechrau gweithio yn y pyllau.

Adnod: "Ym mhopeth, dangosais i chwi mai wrth lafurio felly y mae'n rhaid cynorthwyo'r rhai gwan, a dwyn ar gof y geiriau a lefarodd yr Arglwydd Iesu ei hun. 'Dedwyddach yw rhoi na derbyn'." Actau 20:35

Gweddi: Diolch i ti, O Dduw, am bobl sy'n barod i weithio'n galed ac i droi pob carreg i wneud y byd yn le gwell i fyw. Amen.

Trafod:

- Roedd hi'n anodd iawn i basio deddf drwy'r Llywodraeth gan fod nifer o'r aelodau yn ddynion cyfoethog ac yn berchnogion pyllau glo. Trafodwch hyn.
- Chwiliwch am fwy o wybodaeth am gyflwr plant yn nyddiau Arglwydd Shaftesbury.